CYNGOR CYMUNED LLANFAIR MATHAFARN EITHAF

COFNODION o Gyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa Goronwy Owen, Benllech ar Nos Fawrth, 29 Mai, 2018 am 7.00 o'r gloch.

PRESENNOL Mr R O Jones, (Cadeirydd), (Benllech A), Ms G M Davies, (Benllech A), Mr K F Griffiths, (Benllech A), Mrs C A Hulme, (Benllech B), Mr D Humphreys, (Benllech B), Mr I Williams, (Benllech B).

1 PENODI CADEIRYDD – 2018/2019.

PENDERFYNWYD – ethol Mr Rhys Owain Jones fel Cadeirydd y Cyngor am 2018/2019.

2 PENODI IS-GADEIRYDD – 2018/2019.

PENDERFYNWYD – ethol Mr Dafydd Humphreys fel Is – Gadeirydd y Cyngor am 2018/2019.

3 CYNRYCHIOLWYR Y CYNGOR.

PENDERFYNWYD – penodi'r cynrychiolwyr canlynol ar yr amryw gyrff a nodir isod :-

Neuadd Goffa Goronwy Owen	Mr G Harker-Roberts
Un Llais Cymru	Ms G M Davies
Ymddiriedolwyr Stad Tyddyn Tlodion	Mr D W Roberts a Mrs W Owen
Neuadd Gymuned a Chyn Filwyr Benllech	Mr K F Griffiths
Y Fynwent	Cadeirydd, Mrs S Edwards, Mr G Harker-Roberts
Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned	Mr P Day a Mrs C A Hulme
Pwyllgor Personel	Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Ms G M Davies, Mrs W Owen a Mrs S Edwards
Partneriaeth Chwarae	Mr K F Griffiths
Pwyllgor Gwefan y Cyngor	Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Mr G Harker-Roberts
Pwyllgor Cynllun Datblygu Lleol	Cadeirydd, Mr K F Griffithd, Mr P Day
Pwyllgor Teledu Cylch Cyfyng	Cadeirydd, Mr K F Griffiths, Mr G Harker-Roberts.

4 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y canlynol :- Mr J Cotterell, (Benllech A), Mrs B E Gall, (Benllech B), Mrs W Owen, (Llanbedrgoch)

5 DATGANIADAU O DDIDDORDEB.

Derbyniwyd Datganiadau o Ddiddordeb gan Ms G M Davies, (Benllech A), Mr I Williams, (Benllech B).

6 COFNODION.

Llofnododd y Cadeirydd Gofnodion Cyfarfodydd y Cyngor a gynhaliwyd ar y 23ain o Ebrill 2018.

LLWYBRAU FFYRDD A PHALMENTYDD.

7 MATERION PRIFFYRDD AMRYWIOL.

Adroddwyd gan aelodau – amrywiol faterion oedd angen sylw.

GOHEBIAETH

8 CYNGOR SIR YNYS MON - GLANRAFON HOTEL, BENLLECH.

Cyflwynwyd er gwybodaeth - ymateb gan Adran Cynllunio Cyngor Sir Ynys Mon i gonsyrn aelodau'r CyngorCymuned parthed caniatad cynllunio a roddwyd i McCarthy & Stone ac yn benodol uchdwr yr adeilad newydd a godwyd.

9 ATEBION CYFRIFIADURON MON - GDPR.

Cyflwynwyd er gwybodaeth - cadarnhad gan Atebion Cyfrifiaduron Mon fod gwefan y Cyngor Cymuned yn awr yn unol a gofynion GDPR. Eglurodd y Clerc fod y cwmni yn edrych ar wneud gwaith cyffredinol GDPR i nifer o Gynghorau Tref a Chymuned ar Ynys Mon ac ei fod wedi cael sgwrs anffurfiol gyda'r perchenog ynglyn a bod yn gyfrifol am Lanfair M.E. yn enwedig gan fod ansicrwydd yn parhau a fedr y Clerc ymgymryd a'r gwaith o dan y rheolau newydd.

PENDERFYNWYD – peidio a gofyn i Atebion Cyfrifiaduron Mon ymgymryd a'r gwaith ond yn hytrach cysylltu ag Adain Gyfreithiol y Cyngor Sir am gyngor pellach.

(Datganodd Mr Ieuan Williams ddiddordeb yn y mater yma ac nid oedd yn bresennol yn ystod y drafodaeth na'r bleidlais ar y mater.)

10 UN LLAIS CYMRU - GDPR.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – copi o lythyr gan Lywodraeth Cymru yn datgan fod Llywodraeth Prydain Fawr wedi eithrio yr anghenraid i Gynghorau Tref a Chymuned orfod penodi Swyddog "Data Protection" o dan y mesur newydd.

11 GRANTIAU A RHODDION.

Cyflwynwyd – Cais am grant gan y canlynol :-

(i) Cylch yr Urdd Ysgol Llanbedrgoch.

PENDERFYNWYD – ar sail y pwerau a roddwyd yn Adran 137 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd) ac oherwydd bod y Cyngor o'r farn fod y gwariant yn unol a gofynion yr Adran, cymeradwyo talu :-

(i) Grant o £150 i Gylch yr Urdd Ysgol Llanbedrgoch.

TALIADAU A CHYFRIFON

12 BILIAU.

Edwards Accounting	Paratoi gwybodaeth	£30-00
Lingo Cyf	Hurio offer cyfieithu	£36-00
G E Pritchard	Ad-daliad papur llungopio	£7-00
Photostatic	Llungopio	£23-52
Atebion Cyfrifiaduron Mon	Gwefan yn unol a GDPR	£55-00
Zurich Municipal	Premiwm blynyddol 18/19	£2363-03

13 CYFRIFON.

Cyflwynwyd – cyfrif yn dangos manylion y taliadau a wnaethpwyd gan y Clerc (yn cynnwys taliadau o dan gynllun dirprwyo cyfredol y Cyngor) yn Ebrill 2018.

PENDERFYNWYD – i nodi'r cyfrif a chytuno'r taliadau.

14 CYLLIDEB Y CYNGOR.

Cyflwynwyd – manylion o dderbyniadau a gwariant y Cyngor i gymharu a'i gyllideb am y cyfnod o 1 Ebrill 2018 i ddiwedd Ebrill 2018.

PENDERFYNWYD – i nodi a chytuno'r manylion.

<u>MATERION CYFFREDINOL</u>

15 CYFARFODYDD Y CYNGOR 2018/2019.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – manylion o ddyddiadau Cyfarfodydd y Cyngor am 2018/2019.

16 RHESTR PRESENOLDEB 2017/2018.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – Rhestr Presenoldeb aelodau am y flwyddyn 2017/2018.

17 CYFRIFON 2017/2018.

Adroddwyd – fod Cyfrifon y Cyngor am 2017/2018 wedi eu harchwilio gan yr Archwiliwr Mewnol a'i cael yn foddhaol gydag un argymhelliad sef cysoni y cyfrif banc a'r cyfrifon yn fisol. (copi o'r Adroddiad archwilio mewnol blynyddol yn amgaedig.)

Cyflwynwyd – copiau o'r Datganiad Llywodraethu Drafft blynyddol a'r Datganiad Cyfrifon Drafft Blynyddol.

PENDERFYNWYD –

(i) cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Drafft Blynyddol.

(ii) cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon Drafft Blynyddol.

(iii) awdurdodi'r Cadeirydd, y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol i arwyddo'r Datganiad Blynyddol Drafft ar ran y Cyngor.

18 MAES CHWARAE WYNEB BOB TYWYDD.

Cafwyd adroddiad o'r cyfarfod rhwng Pwyllgor y Clwb Bowlio ac aelodau o'r Cyngor Cymuned i drafod ymhellach y bwriad i ddefnyddio hen gyrtiau tenis y Clwb Bowlio fel Maes Chwarae gyda wyneb bob

tywydd a fuasai'n galluogi cyfleuon i ieuenctid yr ardal gymeryd rhan mewn nifer o chwaraeon gwahanol. Cafwyd adroddiad positif o'r cyfarfod ac edrychir ymlaen i'r cyfarfod nesaf pan fydd rhaid ymgymryd a threfnu pwyllgor ar y cyd i symud ymlaen gyda cael prisiau ac offer a chytuno rheolaeth o'r safle.

19 CYNGHORAU TREF A CHYMUNED – DATRYSIAD PROTOCOL LLEOL.

Derbyniwyd ebost gan Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Mon yn holi os oedd y Cyngor Cymuned wedi mabwysiadu Datrysiad Protocol Lleol perthnasol i gwynion lefel isel rhwng aelodau. Eglurodd y Clerc nad oedd gan y Cyngor Ddatrysiad Protocol Lleol, fodd bynnag roedd dewis o sefydlu protocol neu ddefnyddio Model wedi ei baratoi gan Un Llais Cymru a rhoddwyd copi i'r aelodau oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

PENDERFYNWYD – cynnigwyd mabwysiadu model brotocol Un Llais Cymru a phasiwyd yn unfrydol.

20 CYNGOR SIR YNYS MON – YMGYNGHORIAD CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY.

Cafwyd fersiwn drafft o'r ail Gynllun Gwella Hawliau Tramwy gan Gyngor Sir Ynys Mon a gwahoddwyd y Cyngor i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad statudol deuddeg wythnos gyda sylwadau i'w cyflwyno erbyn 10 Awst 2018.

PENDERFYNWYD – gan nad oedd llawer o newid o'r cynllun gwreiddiol ni wnaed sylw newydd, ond fe ailadroddwyd consyrn yr aelodau am dramwyo ar hyd yr A5025 drwy Fenllech yn enwedig ardal y Sgwar.

21 YSWIRIANT ZURICH - ADNEWYDDU AM 2018/2019.

Cyflwynwyd – rhestr symiau'r cytundeb yswiriant gyda chwmni Zurich Municipal i ystyried os oedd angen newidiadau mewn symiau, offer a chyfrifoldebau.

PENDERFYNWYD – derbyn y rhestr symiau fel ac yr oedd.

22 CLERC NEWYDD I'R CYNGOR CYMUNED.

Eglurwyd fod y trydydd ymgeisydd am swydd y Clerc wedi tynnu ei chais yn ol. Roedd y Clerc wedi cysylltu unwaith eto a "Letterbox Recruitment" ond yn anffodus mae'r cwmni yn terfynu ar ddydd olaf

Mehefin. Trafodwyd y sefyllfa a phenderfynwyd hysbysebu yn y Daily Post a defnyddio gwefan "universaljobmatch" mewn ymgais bellach i gael Clerc cymmwys.

CYNLLUNIO

23 CEISIADAU

PENDERFYNWYD – ar y ceisiadau cynllunio o flaen y Cyngor fel a ganlyn :-

1. Caniatau :

30C828	19 Bryn Goleu, Tynygongl.
30C821C/VA	104 Lon Conwy, Benllech
30C359M	Plas Uchaf Caravan Site, Tynygongl.
30C825	Penmon, 18 Lon Farchog, Benllech.

2. Gadael i Swyddogion yr Adran Gynllunio :

30C222J/DIS	Bryngwyn Stores, Benllech.

Terfynwyd y Cyfarfod am 8-10 yr hwyr.